Mae ganddo lawer o ddiddordebau eraill hefyd, sef casglu hen greiriau ac yn ei gartref yn Aberystwyth mae yna doreth o wahanol bethau. Caiff alwadau cyson i annerch gwahanol fudiadau ac i arddangos y trysorau gwerthfawr. Mae'n eisteddfodwr o fri a ddiddordeb mewn llenyddiaeth a barddoniaeth. Enillodd gadeiriau mewn gwahanol eisteddfodau, ac un ohonynt am gyf-ansoddi emyn yn eisteddfod Myddfai.

Ei brif ddiddordeb heb amheuaeth ydy ei gapel, sef Capel y Tabernacl, Aberystwyth, lle mae'n Flaenor ac yn gyhoeddwr swyddogol. Mawr hyderwn y caiff flynyddoedd maith eto i fynychu'r pethau y mae mor hoff ohonynt.

Rwyf yn sicr bydd neuadd y Penrhyn dan ei sang ar y deuddegfed o Orffennaf pan gyflwynir tysteb iddo fel arwydd o ddiolch am ei wasanaeth diflino yn y blynyddoedd a fu. Dymunwn iddo hapusrwydd, iechyd a phob bendith i'r dyfodol.

I gloi dau englyn o waith y bardd o'r Dole, sef Mr. H. Huws, sy'n crisialu teimladau ardal gyfan ar ddiwedd pennod arall yn hanes y gwron R.T. Evans.

Oet was, oet gymwynaswr - yn ein bro,
Oet yn brif addysgwr;
Enaid teg, ti oeddit dŵr
Addas a gwir foneddwr.

Hyd yma buost hir dymor - yn gaeth
Ym myd gwers a chyngor;
Wedi hyn boed iti'n stôr
O'th oreugwaith a rhagor.